

CYFARFOD y PWYLLGOR CYNLLUNIO a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 4ydd Ebrill 2018 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Wellington, y Rhyl ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Mrs W. Mullen-James (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr B. Blakeley, Mrs. J. Chamberlain Jones, Ms. J. Hughes, A.S. Johnson, K.R. Jones, Mrs. D.L. King, Ms. V. Roberts, A.J. Rutherford, a Miss C.L. Williams.

Hefyd yn bresennol: y Cynghorydd T. Thomas

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

60. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyngorwyr Mrs. J. Butterfield, Ms. J. McAlpine, a B. Mellor.

61. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd yr Aelodau y Ceisiadau Cynllunio a dderbyniwyd, fel y dangosir isod a **PHENDERFYNWYD** fel y nodir arnynt nawr.

Nodyn 1: Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle'n briodol, bod gofyn i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.

ATODLEN CEISIADAU CYNLLUNIO	
61.1	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> Arriva Cymru Ltd. Ffynngroew Road, y Rhyl.</p> <p><u>WARD:</u> Foryd</p> <p><u>WARD CLLRS:</u> Mrs. J. Butterfield A.R. James</p> <p><u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2018/0194</p> <p><u>DISGRIFIAD:</u> Adeiladu ffens terfyn acwstig a tho newydd i gyfarpar golchi bysus i ddal y dŵr sy'n chwistrellu.</p> <p><u>YMGEISWYR :</u> Arriva North West Limited.</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> Dim gwrthwynebiad</p>
61.2	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> 42 Weaverton Drive, y Rhyl</p> <p><u>WARD:</u> Derwen</p> <p><u>WARD CLLRS:</u> Mrs. J. Chamberlain Jones Mrs. E.M. Chard</p>

	<p style="text-align: center;">Miss E. Jones</p> <p><u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2018/0217</p> <p><u>DISGRIFIAD:</u> Dymchwel modurdy i adeiladu estyniad un llawr to goleddf yng nghefn y tŷ annedd.</p> <p><u>YMGEISWYR :</u> Cymdeithas Tai Clwyd Alun</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Gwrthwynebu am y rhesymau canlynol:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> - <i>Allan o gymeriad i raddfa a math y datblygiad yn yr ardal o gwmpas.</i> - <i>Nid yw'r estyniadau bellach yn israddol i'r adeilad gwreiddiol ac felly mae'n cynrychioli gor-ddwysad y safle</i> - <i>Pryderon ynglŷn â thraffig ychwanegol a diffyg lle i barcio ar y safle i ddeiliaid ac ymwelwyr gan gynnwys gofalwr ar y safle</i> <p><i>Hoffai'r Cyngor Tref hefyd fynegi pryderon :-</i></p> <ul style="list-style-type: none"> - <i>nad yw'r "cynlluniau presennol" a gyflwynwyd yn ymddangos fel eu bod yn cynrychioli cynllun presennol yr adeilad, gan ei bod yn ymddangos bod y modurdy wedi ei drosi yn ystafell ychwanegol. Nid yw'n hysbys os yw'r newid hwn wedi cael caniatâd cynllunio ond ymddengys ei fod wedi digwydd cyn 2009.</i> - <i>bod y "cynlluniau presennol" a gyflwynwyd yn atgynhyrchiad o gynlluniau a gyflwynwyd yn 2011 dan rif cais 45/2011/0427 ac maent yn cynnwys disgrifiad manwl o'r deiliaid arfaethedig ar y pryd (h.y. 7 o oedolion/blant a 3 babi).</i>
61.3	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> 433 – 441 Ffordd Arfordir y Rhyl, y Rhyl.</p> <p><u>WARD:</u> Brynhedydd</p> <p><u>WARD CLLRS:</u> S. Harris B. Mellor</p> <p><u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2018/0244</p> <p><u>DISGRIFIAD:</u> Amrywio Amod Rhif 2 caniatâd cynllunio rhif cod 45/217/99/PF i ganiatáu newidiadau i gynllun a dyluniad cynlluniau a gymeradwywyd.</p> <p><u>YMGEISWYR :</u> Penrhyn Limited, Bae Penrhyn.</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Dim gwrthwynebiad</i></p>

62. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, datganodd y Cadeirydd bod y Cyfarfod wedi dod i ben.

Llofnod:

Dyddiad: